# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DACHWEDD 7fed, 2023

## Yn NEUADD BENTREF COEDYBRYN am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Ceri Jones (cadeirydd)
Cyng. Sharon Thomas
Cyng. Mark Davies
Cyng. Maldwyn Lewis
Cyng. Emyr Jones
Cyng. Llyr Evans

Clerc Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng.Sian Williams, Cyng.Carol Davies, Cyng. Roger Davies ynghŷd a'r Cyng.Rob Jones.
- Nid oedd y Cyng. Teifi Evans yn bresennol, ac nid oeddyn wedi derbyn Ymddiheuriad.

**2. Datgan Diddordeb** DIM

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

- Cadarnhaodd y Cyng. Mark Davies fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan y Cyng.Emyr Jones.

**4. Materion yn Codi**

- 4.1 – Mae'r Mandate yn parhau – bellach mae angen ei wneud dros y ffon neu ar-lein.
- 4.2 – Adnewyddu to yr arhosfan bws yng Nghoedybryn wedi cael ei wneud.
- 4.3 - Y Clerc wedi cyfrifo'r TAW ac wedi anfon i ffwrdd. Rhwng Ebrill 2021 – Hydref 2023 roedd cyfanswm o £1,038.05
- 4.4 – Y Clerc wedi arwyddo'r Contract.
- 4.5 – Y Padiau De-fibs wedi adnewyddu yn Brongest, Coedybryn a Ffostrasol ac mae'r dyddiadau wedi eu adnewyddu ar lein. Trafodwyd y byddai'n syniad cynnig sesiwn ar sut i ddefnyddio'r De-fibs ac ychydig o gymorth cyntaf i drigolion yr ardal a byddwn yn ail drafod hyn yn ein cyfarfod ar ddechrau'r flwyddyn.
- 4.6 – Mae'r potiau yn y gymuned wedi cael eu ail blannu gyda bylbiau ar gyfer y Gwanwyn. Y Cyng Sian Williams fu'n bennaf gyfrifol er i eraill helpu yn eu pentrefi – y Cyng Sharon Thomas a'r Cyng.Maldwyn Lewis. Gobeithio y medrwn gael pot arall ar gyfer Capel Cynnon y flwyddyn nesaf.
- 4.7 – Nododd y Clerc fod Ceredigion wedi bod mewn cysylltiad a bod y twll ger hen Ysgol Brongest ar eithin oedd wedi gor-dyfu wedi cael ei sortio allan.
- 4.8 – Praesept – Gwnaed rhestr ar gyfer Praesept y flwyddyn nesaf a daeth y cyfanswm i £12,000. Y Clerc i greu rhestr lawn ar gyfer ffeilio.
- 4.9 – Asesiad Risg – hwn i'w drafod yng nghyfarfod mis Rhagfyr.
- 4.10 – Rhestr Asedau – wedi eu gwneud, ac angen i'r Clerc greu rhestr i ffeilio yn y cwpwrdd yn Newuadd Coedybryn.

- 4.11Coed Nadolig – Y Cyng.Sharon Thomas yn mynd i drefnu'r coed Nadolig eleni eto. Bydd angen 6 i gyd a'r gobaith yw gosod y coed yn eu lle ar Dachwedd 30ain/Rhagfyr 1af. Fel arfer bydd y Cyng Sian Williams ac Arwyn yn gosod un Coedybryn yn ei lle.
- 4.12 – Bwcabys – y diweddariad yw fod y gwasanaeth wedi dirwyn i ben. Bu cyfarfod yn Ysgol Bro Teifi ble roedd Cefin Campbell yn bresennol ynghyd a tua 100 o drigolion yr ardal. Y neges o Gaerdydd oedd nad oedd cyllid i gynnal y gwasanaeth bellach, ond y gwyn oedd nad oedd dim trafodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus arall wedi cymryd lle. Cadarnhawyd fod Ben Lake, Elin Jones a Keith Henson wedi ymateb i'r llythyron a anfonwyd atynt gan ein Cyngor Cymuned. Roedd cynrychiolydd yno o Fws Bro Llandysul, ond mae hwn yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr yn gyrru.

**5. Materion y Cynghorydd Sir**

- 5.1 – Mae ymgynghoriad am addysg Ol 16 ac maent yn edrych ar sawl opsiwn ar hyn o bryd, gan gynnwys Cyfuno cyrsiau neu creu canolfan rhagoriaeth mewn un safle penodol, ond nid oes penderfyniad wedi eu wneud eto.

**6. Gohebiaeth**

- 6.1 – Grantiau ar gyfer manau chwarae yng Ngheredigion.
- 6.2 – D-Day 80 ar 24ain o Fehefin. Y son am oleuo 'beacons'.
- 6.3 – Mae'r 'Great British Bake-off' yn chwilio am gystadleuwyr.
- 6.4 – Mae Cyfarfod Cymuned Ceredigion ar gael i'r Cynghorwyr eto.
- 6.5 – Llythyr gwybodaeth am Gadw Cymru'n Daclus.
- 6.6 – Poster wrth 'Citizen Advice' i arddangos ar ein tudalen Facebook
- 6.7 – Calon Hearts wedi anfon rhestr o ddigwyddiadau dros y Nadolig.
- 6.8 – Gwahoddiad i ffeiriau lles CAVO.
- 6.9 – Llythyr am godiad cyflog y Clerc ers mis Mawrth - hwn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
- 6.10 – Ambiwlans Awyr wedi holi am gyfraniad – angen iddynt lenwi'r ffurflen sydd ar ein gwefan.

**7.Cynllunio -** DIM

**8. Cyllid**

- 8.1 – Pawb oedd yn bresennol yn cytuno i dalu'r taliadau, ac arwyddwyd y sieciau gan y Cynghorwyr Sharon Thomas a Maldwyn Lewis.

| | | |
|---|---|---|
| HMRC - | £253.48 | 001728 |
| Cyflog y Clerc - am gyfieithu) | £570.08 | 001729 ( + £361.80 wedi talu ymlaen llaw |
| Ashmole & Co - | £90.00 | 001731 |
| Treuliau'r Clerc - | £73.95 | 001732 |
| The Solutions Factory | £72.00 | 001730 |

- 8.2 – Mae angen i'r Clerc i anfon llythyr i'r Banc i drosglwyddo £2,000 o'r Cyfrif Busnes i'r Cyfrif Cyfredol.

**9. Materion Ardal**

- 9.1 – Coedybryn – Angen ail-wneud arwydd T.Llew Jones sydd tu allan y neuadd. Datgelodd Anthony Schiavoni fod Pentrecwrt wedi cael yr un broblem ac wedi ail wneud un nhw trwy Boomerang. Mae Anthony Schiavone yn fodlon helpu cael y manylion sydd ar yr arwydd er mwyn ei ail wneud. Nid yw'r grwp gwreiddiol oedd yn gyfrifol am yr arwydd yn bodoli bellach a penderfynwyd fel Cyngor i gymryd y cyfrifoldeb o'i atgyweirio.
- 9.2 – Coedybryn – mae arwydd 20mya yng Nghoedybryn wedi ei atgyweirio.
- 9.3 – Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus iawn yn Neuadd Coedybryn gyda Bronwen Lewis yn perfformio. Braf oedd gweld rhai o aelodau'r Cyngor yn bresennol.
- 9.4 –Coedybryn - Mae Llinos Evans, Rhoslwyn yn cynnal clwb dysgu Cymraeg llwyddiannus iawn yn y Neuadd ac erbyn hyn mae tua 52 yn y clwb yn rheolaidd. Mae'r clwb yn mynd o nerth i nerth.
- 9.5 –Y gobaith yw goleuo coeden Nadolig Coedybryn ar ddydd sul, Rhagfyr 3ydd.
- 9.6 – Braf oedd dymuno Penblwydd hapus i un o drigolion yr ardal yn ddiweddar, Nansi Davies, Nurseries, Maesllyn yn dathlu ei 100fed penblwydd. Cafwyd parti i ddathlu'r achlysur yn neuadd Coedybryn. Roedd y Cynghorydd Maldwyn Lewis yno ar ran y Cyngor Cymuned a 'r Cyngor Sir. Angen i ni anfon llythyr a carden i'w llongyfarch.
- 9.7 – Brongest – arwydd tractor wedi cael ei ddwyn ger Blaenwinllan.
- 9.8 – Mae C.Ff.I. Troedyraur yn cynnal noson o bigion yr Eisteddfod ar Dachwedd 16eg yn Neuadd Ffostrasol am 7:30 yh.
- 9.9 – Sioe'r Cardi 2024.<br>Nos Wener cynhaliwyd noson lawnsio'r Calendar noeth yng Nghlwb Rygbi C.N.E.<br>Rhagfyr 15fed – yn fferm Beili mae noson Stori'r Geni.<br>Rhagfyr 26ain – Gem rygbi ar Ddol Wiber.<br>Mai 5ed – Gem rygbi yn Aberaeron.<br>Mehefin 16eg – Rasio tractorau.<br>Mehefin 28ain – AGM yn fferm Pantrodyn.
- 9.10 – Mae angen torri'r clawdd ym Mhenrhiwpal, gyferbyn a'r troad am Coedybryn ac i fyny am Ffostrasol, gyferbyn a'r bysiau.
- 9.11 – Mae Ysgol Bro Teifi yn perfformio Cyngerdd 'Torri'n Rhydd', addasiad o 'High School Musical' ar Dachwedd 22,23 a 24. Y prif gymeriadau yw Tomos Lloyd Evans o Ffostrasol ac Erin Thomas o Drebedw. Mae llawer o blant ifanc arall o'r ardal yn cymryd rhan yn y Sioe.
- 9.12 – Llongyfarchiadau i Glybiau C.Ff.I Troedyraur a Phontsian a wnaeth yn dda yn yr Eisteddfod yn ddiweddar. Daeth Pontsian yn ail dros y Sir.
- 9.13 – Diolchodd Eisteddfod Rhydlewis am ein cyfraniad iddynt llynedd ac maent wedi holi eto am gyfraniad. Bydd angen iddynt lenwi'r ffurflen briodol eto.
- 9.14 – Rhydlewis - Mae problem gyda'r geuffos ar waelod rhiw Penrhiwpal. Mae slab yn rhydd ac angen ei ail osod ger Troedyrhiw SA44 5RH ( CLIC)<br>Hefyd mae angen sortio'r broblem gyda rhan o'r ddaear wedi syrthio yn SA44 5RH ble mae conau plastig wedi bod yno ers tua 2 flynedd bellach.
- 9.15 – Rhydlewis - Chwistrellwyd arwyddion 20mya dros nos yn y pentref – y noson oeddynt wedi cael eu gosod, o fewn ychydig oriau.
- 9.16 – Brongest – mae rhan o'r bont wedi syrthio a conau sydd yno bellach. ( CLIC)

**10. Cyfarfod Nesaf**

- 10.1 – Bydd y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis ar Ragfyr 5ed am 7:30yh

- 10.2 – Gan nad oedd dim arall i'w drafod tynnoddd y Cadeiridd y cyfarfod i ben am 10:40 o'r gloch.

**Cadarnhawyd fod y cofnodion hyn yn gywir.**

| | |
|---|---|
| **Llofnod** | **Dyddiad** |
| **------------------------------------------------------------** | **-----------------------------------** |